# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Trallwn Dental Surgery, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 19 Chwefror 2018

Dyddiad cyhoeddi: 21 Mai 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** **0300 062 8163**

**E-bost:** hiw@wales.gsi.gov.uk

**Ffacs:** **0300 062 8387**
**Gwefan:** **www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-78903-995-5



© Hawlfraint y Goron 2018

# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........................................................................................ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ................................................................................. 6

3. Yr hyn a ganfuom ............................................................................................ 7

   Ansawdd profiad y claf ....................................................................................8

   Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ..................................................................12

   Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ...........................................................18

4. Beth nesaf? .................................................................................................... 20

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ..................................................... 21

   Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .22

   Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ...........................................................23

   Atodiad C – Cynllun gwella ..........................................................................24

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn sicrhau bod profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud dyfarniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn rydym yn ei weld**
- **Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull o weithredu yn effeithlon, yn effeithiol ac yn gymesur.**

# Ein blaenoriaethau

**Drwy ein gwaith, ein nod yw:**

| | |
|---|---|
| **Rhoi sicrwydd:** | **Rhoi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant drwy adrodd am arfer da a'i rannu.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad o Trallwn Dental Surgery yn 143 Heol Trallwn, Llansamlet, Abertawe SA7 9UU, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ar 19 Chwefror 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Safonau Iechyd a Gofal 2015, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, canfuom dystiolaeth bod Trallwn Dental Surgery yn darparu gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol ar gyfer ei gleifion.

Roedd y practis yn canolbwyntio ar y claf ac roedd ganddo bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith, a nifer o'r rhain yn cael eu hategu gan ganllawiau ychwanegol, i sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion.

Gwnaethom nodi bod y practis yn lân ac yn daclus, a gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos bod yr offer deintyddol yn cael eu cynnal a chadw ac yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd.

Mae angen i'r practis sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Gwelsom fod staff yn rhyngweithio â chleifion mewn modd proffesiynol, caredig a chwrtais
- Roedd y cyfleusterau clinigol wedi cael eu cyfarparu'n dda ac roeddent i'w gweld yn lân ac yn daclus
- Roedd offer deintyddol yn cael eu cynnal a chadw'n dda ac yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd
- Bydd yr estyniad arfaethedig i'r practis yn darparu cyfleusterau dadheintio pwrpasol a mwy o gyfleusterau ar gyfer cleifion mewn cadeiriau olwyn.

Rydym yn argymell y gallai'r gwasanaeth wella’r canlynol:

- Dylai'r practis gyflwyno rhaglen ar gyfer archwilio cofnodion meddygol.
- Dylid cadw cofnodion cleifion yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, sef Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Trallwn Dental Surgery yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion yn ardal Abertawe . Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae gan y practis dîm staff sy'n cynnwys tri deintydd, pedair nyrs ddeintyddol a dau aelod o staff y dderbynfa.

Mae'r practis yn darparu amrediad o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol cyffredinol preifat.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Canfuom fod y practis yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion, a gwelsom staff yn ymdrin â chleifion mewn modd proffesiynol a chwrtais.

Mae'r practis yn cofnodi adborth anffurfiol/llafar gan gleifion trwy wahodd cleifion i gwblhau arolygon boddhad cleifion a thrafod y canlyniadau â'r staff.

Nododd y cleifion hynny a gwblhaodd holiaduron AGIC eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth yr oeddent wedi eu derbyn.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 20 o holiaduron cleifion. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *Rwyf wedi bod yn glaf yn y practis hwn ers nifer o flynyddoedd. Mae fy nymuniadau bob amser wedi cael eu parchu ac rwyf wedi cael fy nhrin fel unigolyn. Mae'r gwaith deintyddol rwyf wedi'i gael bob amser wedi bod o safon ragorol. Ni allaf gwyno am unrhyw ran o'r gwasanaeth a ddarperir.*
>
> *Bob amser yn cael fy nhrin â pharch ac yn cael gwasanaeth proffesiynol gan bawb dan sylw. Ni fyddwn fyth yn ystyried unrhyw ddeintyddfa arall.*
>
> *Gofal a gwasanaeth rhagorol ar bob adeg. Mae'n glod i'r holl aelodau o staff sy'n gweithio yma.*

### Cadw'n iach

Gwelsom fod detholiad bychan o daflenni gwybodaeth hybu iechyd ar gael i gleifion yn y fan aros y gallent eu darllen a/neu fynd â nhw ymaith. Roedd y rhain yn cynnwys taflenni a rhoi wybodaeth am driniaethau a chyngor ataliol.

Dywedodd 17 o'r 20 o gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynghylch sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

## Gofal ag urddas

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi eu trin â pharch wrth ymweld â'r practis.

Dywedodd y staff wrthym, os oedd angen cael sgwrs breifat â chlaf, y gellid gwneud hyn yn y swyddfa ar bwys y dderbynfa. Gellid hefyd gwneud galwadau ffôn o'r swyddfa honno, a oedd eto'n rhoi preifatrwydd i'r claf.

### Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob claf ond un a gwblhaodd holiadur wrthym ei fod yn teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau a wneir ynghylch ei driniaeth (i'r graddau yr oedd yn dymuno), a, phan fyddai angen triniaeth arno, byddai'r tîm deintyddol yn ei helpu i ddeall yr holl opsiynau a oedd ar gael iddo.

Dywedodd 18 o'r 20 o gleifion a gwblhaodd holiadur fod cost unrhyw driniaeth yn cael ei hesbonio'n glir iddynt cyn iddynt dderbyn unrhyw driniaeth, a dywedodd y mwyafrif o'r cleifion hynny eu bod yn deall sut roedd cost eu triniaeth yn cael ei chyfrifo.

Gwelsom restri prisiau a oedd yn arddangos costau triniaeth ddeintyddol y GIG a thriniaeth ddeintyddol breifat yn y fan aros.

Roedd manylion y deintyddion a oedd yn ymarfer a'u horiau agor perthnasol yn cael eu harddangos yn amlwg yng nghyntedd prif fynedfa'r practis.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod bob amser yn gallu siarad â staff yn eu hiaith ddewisol.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom staff yn siarad â chleifion yn gwrtais ac yn foesgar wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

## Gofal amserol

Dywedodd 17 o'r 20 o gleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Roedd manylion sut gallai cleifion gael gofal deintyddol brys pan oedd y practis ar gau yn cael eu harddangos wrth fynedfa'r

practis ac yn y daflen wybodaeth i gleifion. Rhoddwyd yr wybodaeth hon hefyd ar neges peiriant ateb y practis.

Roedd y practis yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon yn ystod oriau agor y practis. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn siarad â'r cleifion ac yn eu hysbysu o unrhyw oedi pe bai'r deintydd yn rhedeg yn hwyr.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Cadarnhaodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi ynghylch eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

### Hawliau pobl

Canfuom fod y mynediad i'r practis yn dda, a gallai cleifion mewn cadeiriau olwyn ddefnyddio'r brif fynedfa. Roedd y mannau aros a'r dderbynfa ar y llawr daear, ynghyd â dwy ystafell driniaeth, ac roedd un o'r ystafelloedd hyn yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn.

Roedd toiled i gleifion ar y llawr daear, ond roedd yn rhy fach i gleifion mewn cadeiriau olwyn ei ddefnyddio. Cawsom wybod y byddai estyniad arfaethedig i'r practis yn cynnwys toiled mwy o faint i gleifion gyda mynediad addas i gleifion mewn cadeiriau olwyn. Roedd ail doiled y gallai'r staff ei ddefnyddio ar y llawr cyntaf.

### Gwrando a dysgu o adborth

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i leisio pryder neu gwyno am y gwasanaethau roeddent yn eu derbyn yn y practis deintyddol.

Roedd gan y practis bolisi cwyno ar gyfer triniaeth ddeintyddol y GIG a thriniaeth ddeintyddol breifat. Roedd y polisi'n cyd-fynd â phroses gwyno'r

GIG, "Gweithio i Wella"[1] pan oedd yn berthnasol, ac yn cyd-fynd â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2018 o ran triniaeth ddeintyddol breifat[2]. Roedd y polisi a thaflenni gwybodaeth "Gweithio i Wella" yn cael eu harddangos yn y fan aros a'r dderbynfa.

Roedd y practis yn cadw ffolder a oedd yn cynnwys cofnodion o'r cwynion a oedd wedi dod i law a chanlyniadau'r rhain. Dim ond un cwyn ffurfiol roedd y practis wedi'i derbyn yn ystod y ddeng mlynedd ddiwethaf.

Roedd y practis yn cofnodi pryderon llafar/anffurfiol trwy ofyn i gleifion gwblhau arolwg boddhad cleifion. Cofnodir y canlyniadau, ac yna cânt eu bwydo'n ôl i'r holl staff i'w trafod yng nghyfarfodydd y practis.

[1] “Gweithio i Wella” yw’r broses integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt, a dysgu ohonynt. Materion a nodir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion ac, o ran cyrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru yw pryderon.

[2] www.dentalprotection.org/uk/help-advice/regulations/wales/private-dentistry-(wales)-regulations-2008

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth bod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion. Roedd cofnodion meddygol yn cael eu cadw i safon uchel. Gwnaethom nodi hefyd bod cyfleusterau clinigol wedi cael eu cyfarparu'n dda ac roeddent i'w gweld yn lân ac yn daclus.

Roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod offer pelydr-X yn cael eu defnyddio mewn modd diogel ac roedd tystiolaeth bod holl offer y practis yn cael eu cynnal a chadw'n rheolaidd ac yn barhaus.

Mae angen i'r practis sicrhau bod cofnodion meddygol cleifion yn cael eu cwblhau yn ystod pob ymweliad claf a bod hanesion meddygol yn cael eu diweddaru.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef.

Ni fynegwyd unrhyw bryderon gan y cleifion a gwblhaodd holiadur ynghylch glendid y practis deintyddol.

Roedd yr adeilad yn ôl pob golwg yn cael ei gynnal a chadw'n dda, ac roedd yr ystafelloedd triniaeth yn lân, gydag offer a chyfarpar yn cael eu storio'n briodol. Roedd y mannau anghlinigol yr un mor lân a thaclus.

Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy'n cael eu cynnal yn rheolaidd i helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y practis. Gwelsom fod diffoddwyr tân ar gael mewn lleoliadau amrywiol o amgylch yr adeilad, a nodwyd bod y rhain wedi'u gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn sicrhau bod yr offer yn gweithio'n briodol. Gellid gweld cyfarwyddiadau ar gyfer yr allanfeydd brys.

Gwelsom fod contractau ar waith ar gyfer trosglwyddo a chael gwared ar wastraff peryglus (clinigol), gwastraff nad yw'n beryglus (domestig) a gwastraff amalgam mewn ffordd ddiogel.

O dan Reoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002, mae angen i gyflogwyr naill ai atal neu leihau'r adegau y daw staff i gyswllt â sylweddau sy'n beryglus i'w hiechyd. Gwelsom fod gan y practis restr wirio ar gyfer rheoli sylweddau peryglus i iechyd (COSHH) a dalenni data diogelwch perthnasol, a oedd yn darparu gwybodaeth am sylweddau sy'n 'beryglus i'w cyflenwi' a chyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio sylweddau eraill a ddefnyddir yn y practis yn ddiogel.

Roedd gan y practis lyfr Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR), a oedd yn cael ei gwblhau pan fyddai damwain yn digwydd

## Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offer deintyddol ym mhob ystafell driniaeth, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.[3] Gwelsom dystiolaeth bod mesurau atal a rheoli heintiau priodol ar waith. Roedd y gwaith o lanhau a dadheintio offer cyn-sterileiddio'n cael ei wneud yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru a chanllawiau'r gwneuthurwyr. Roedd gan bob ystafell driniaeth fannau glân a budr. Nid oedd y rhain wedi'u labelu, ac argymhellwn fod labeli'n cael eu harddangos er mwyn nodi'r mannau hyn yn glir.

Gwelsom dystiolaeth bod llyfrau cofnodion yn cael eu cadw ar wirio'r offer sterileiddio ac roedd polisi rheoli heintiau ar waith.

Roedd gan staff fynediad at gyfarpar diogelu personol ac yn ei ddefnyddio wrth weithio yn y mannau dadheintio.

Cawsom wybod y byddai'r estyniad arfaethedig i'r practis yn cynnwys ystafell ddadheintio bwrpasol a grisiau staff penodol ar gyfer cludo offer glân a budr.

---

[3] Mae'r ddogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn cyflwyno canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r practis ddefnyddio labeli er mwyn nodi'r mannau glân a budr ym mhob ystafell driniaeth.

## Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis weithdrefnau ar waith i ymdrin ag argyfyngau cleifion. Roedd yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant yn ystod y 12 mis diwethaf ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i gyflawni dadebru cardio-pwlmonaidd. Roedd holl nyrsys deintyddol y practis yn swyddogion cymorth cyntaf penodedig.

Roedd y staff yn cadw cyffuriau brys ac offer dadebru brys priodol yn unol â chanllawiau Cyngor Dadebru (y DU)[4]. Storiwyd y rhain mewn cwpwrdd yn y swyddfa. Pan nodwyd nad oedd y cwpwrdd yn ddiogel, cafodd y cyffuriau a'r offer eu symud ar unwaith i gwpwrdd dan glo ar ochr arall yr ystafell. Gwnaeth y practis hefyd osod arwydd "Ocsigen" ar ddrws y cwpwrdd i nodi bod y silindr ocsigen yn cael ei storio yno.

Gwnaethom nodi bod gan y practis system ar waith i wirio bod cyffuriau ac offer brys yn barod i'w defnyddio.

Gwnaethom nodi bod llyfrau presgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel.

## Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Gwelsom fod gan y practis bolisïau a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion sy'n agored i niwed, ac roedd y rhain yn cynnwys manylion cyswllt yr asiantaethau diogelu perthnasol. Gwelsom dystiolaeth bod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddwy ran yr hyfforddiant, sef amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.

---

[4] Sefydlwyd Cyngor Dadebru'r DU i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, ymchwil, a chydweithredu.

Roedd trefniadau ar waith i staff leisio unrhyw bryderon, a dywedodd y staff wrthym fod y prif ddeintyddion yn annog polisi agored, a byddent yn teimlo'n gysurus pe bai angen iddynt wneud hyn yn y practis. Gwnaethom nodi bod gan yr holl staff dystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod yr holl ystafelloedd triniaeth yn lân ac yn cynnwys offer priodol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol.

Roedd yr offer radiolegol yn gweithio'n dda ac roedd mannau a reolir wedi'u nodi. Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos bod y peiriannau cywasgu a phelydr-X yn cael eu gwasanaethu’n rheolaidd. Cedwid ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd ac roedd yn cynnwys yr holl wybodaeth hanfodol.

Nod Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 yw lleihau'r adegau y daw cleifion i gyswllt ag ymbelydredd yn ystod triniaethau meddygol. Cynghorir bod y practis yn gosod mesuryddion dogn ymbelydredd ar ddarn llaw pob peiriant pelydr-X er mwyn galluogi staff i sicrhau na ddefnyddir mwy na'r dogn diogel o ymbelydredd.

Roedd yr holl staff clinigol wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol, yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol[5] a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000[6].

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu'n barhaus. Gwelsom fod y practis yn cynnal archwiliadau perthnasol, gan gynnwys rheoli heintiau, boddhad cleifion a lluniau radiograffeg.

---

[5] Cyngor Deintyddol Cyffredinol – http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx

[6] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/pdfs/uksi_20001059_en.pdf

## Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Cawsom wybod bod deintyddion y practis wedi cwrdd â deintyddion eraill o bractisau yng Nghaerdydd a Chasnewydd. Yn ogystal, maen nhw wedi trefnu cyfarfod â phractis arall i drafod materion clinigol. Argymhellwn fod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu trefnu rhwng y deintyddion at ddibenion adolygiadau gan gymheiriaid.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r deintyddion drefnu cyfarfodydd ffurfiol a rheolaidd at ddiben cynnal adolygiadau gan gymheiriaid.

## Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gan y practis bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith, gan gynnwys polisi diogelu data a pholisi mynediad i wybodaeth.

Roedd gan y practis gofnodion electronig a chofnodion papur. Gwnaethom nodi bod y rhain yn cael eu storio'n briodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd copi wrth gefn o'r ffeiliau electronig yn cael ei greu'n rheolaidd. Storiwyd y ffeiliau papur mewn cabinetau ffeilio dan glo yn y swyddfa.

Caiff atgyfeiriadau nad ydynt yn rhai brys eu monitro gan staff y dderbynfa, a chaiff atgyfeiriadau brys eu monitro gan y deintyddion.

## Cadw cofnodion

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion cleifion. Mewn rhai achosion, canfuom fod rhai pethau ar goll, megis y canlynol:

- Nid oedd hanesion meddygol yn cael eu diweddaru yn unol â'r canllawiau.
- Er bod cynlluniau triniaeth yn cael eu cofnodi yn nodiadau'r claf, ni chofnodwyd y cyfiawnhad dros y driniaeth na'r camau gweithredu.

Nodwyd hefyd mai dim ond nifer bychan o sesiynau "digennu a llathru" oedd yn cael eu gwneud.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Er mwyn cydymffurfio â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, dylai'r practis sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau yn ystod pob ymweliad claf er mwyn cofnodi:

- Cyfiawnhad ar gyfer y driniaeth a'r camau gweithredu a gymerwyd
- Hanesion meddygol wedi'u diweddaru

Dylai'r practis gynnal archwiliadau rheolaidd o gofnodion cleifion er mwyn sicrhau arfer da, ac ystyried darparu a/neu gofnodi triniaethau "digennu a llathru"

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Canfuom fod gan y practis systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y practis a'r staff yn cael cefnogaeth a'u bod yn ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel ar gyfer cleifion. Canfuom dystiolaeth o arweinyddiaeth a llinellau atebolrwydd da.

Roedd gweithdrefnau rheoli cadarn ar waith er budd y staff, gan gynnwys arfarniadau staff blynyddol a chyfarfodydd staff rheolaidd.

Roedd yr holl staff wedi derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol ar gyfer eu rolau a'u cyfrifoldebau.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae Trallwn Dental Surgery yn eiddo i'r ddau brif ddeintydd, sydd hefyd yn goruchwylio'r dyletswyddau gweinyddol o ddydd i ddydd.

Roedd y practis wedi'i drefnu'n dda ac roedd cofnodion da'n cael eu cadw ym mhob maes. Roedd amrediad eang o bolisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau diogelwch staff a chleifion. Gwnaethom nodi bod y ffolder polisi'n cynnwys dalen flaen, a oedd yn nodi pan gafodd y polisïau eu hadolygu ddiwethaf, ac roedd llofnod pob aelod o staff y practis arnynt, a oedd yn dangos bod y polisïau wedi'u darllen a'u deall.

Roedd yr holl staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd ganddynt yr yswiriant indemniad priodol. Roedd yr holl ddeintyddion yn darparu rhai gwasanaethau deintyddol preifat, a gwelsom fod eu tystysgrifau cofrestru yn cael eu harddangos yn glir, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

### Staff ac adnoddau

#### Gweithlu

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn mwynhau gweithio yn y practis, a gwelsom berthynas gref rhwng holl staff y practis. Gwnaethom nodi bod gan yr holl staff gontractau gwaith, a gwelsom dystiolaeth ar ffeiliau'r staff bod gan y practis bolisi a rhaglen ymsefydlu ar waith. Gwnaethom hefyd nodi bod y practis yn darparu Llawlyfr Cyflogai a oedd yn cynnwys gwybodaeth amrywiol, gan gynnwys gofynion hyfforddi a thelerau ac amodau cyflogaeth. Roedd arfarniadau staff yn cael eu cynnal bob blwyddyn, a ffurflenni a lenwyd yn cael eu cadw yn ffeiliau'r staff.

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod yr holl staff wedi mynychu hyfforddiant ar amrediad o bynciau a oedd yn berthnasol i'w swyddi ac yn bodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae'r practis yn cynnal cyfarfodydd staff bob chwe mis. Ar ôl pob cyfarfod, roedd cofnodion yn cael eu llunio a'u dosbarthu i'r holl staff. Yn ogystal, bydd y practis yn cynnal sesiynau anffurfiol na chaiff eu cofnodi.

Mae'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat yn gofyn i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru gael tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gyflwynwyd yn ystod y tair blynedd diwethaf. Gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau clirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cwblhau ar aelodau staff clinigol ac anghlinigol fel ei gilydd.

Mae angen imiwneiddio staff clinigol rhag hepatitis B er mwyn diogelu'r cleifion a'u hunain rhag heintiau. Darparodd y practis dystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi'i imiwneiddio.

# 4. Beth nesaf?

Mae'r gwelliannau a'r pryderon uniongyrchol rydym wedi eu nodi yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a uwchgyfeiriwyd ac a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn nodi unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i’r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy’n dweud wrthym am y camau brys maent yn eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i’r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodir, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod unrhyw gamau gweithredu a gymerir mewn ymateb i'r problemau a nodir yn benodol, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy, yn realistig ac yn amserol
- Cynnwys digon o fanylion i sicrhau AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau'n systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, bydd arolygiadau practisau deintyddol yn arolygiadau lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd o arolygiad. Gwneir hyn er mwyn gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn cael ei gynnal yn ôl yr arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o aflonyddwch i gleifion â phosib.

Mae adborth yn cael ei roi i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Bydd unrhyw ddeintydd yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn destun darpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir mwy o fanylion am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen mynd i'r afael â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon a oedd angen sylw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Trallwn Dental Surgery

## Dyddiad yr arolygiad: 19 Chwefror 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw broblemau sicrwydd ar unwaith. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**

## Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Trallwn Dental Surgery

## Dyddiad yr arolygiad: 19 Chwefror 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Mae angen i'r practis ddefnyddio labeli er mwyn nodi'r mannau glân a budr ym mhob ystafell driniaeth. | 2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio | Mae marcwyr coch a gwyrdd wedi'u gosod er mwyn nodi'r mannau budr a glân perthnasol. | James Davies | Cwblhawyd |
| Er mwyn cydymffurfio â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, dylai'r practis sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau yn ystod pob ymweliad claf er mwyn cofnodi:<br>• Cyfiawnhad ar gyfer y driniaeth a'r | 3.5 Cadw cofnodion | Mae cofnodion cleifion yn cynnwys nodiadau atgoffa bellach i gofnodi'r cyfiawnhad dros y driniaeth a'r camau gweithredu a gymerwyd, ac mae nodiadau atgoffa hefyd wedi'u hychwanegu er mwyn diweddaru | James Davies i hysbysu'r deintyddion eraill a'r staff clinigol | Cwblhawyd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| camau gweithredu a gymerwyd<br>• Hanesion meddygol wedi'u diweddaru | | hanesion meddygol | | |
| Dylai'r practis gynnal archwiliadau rheolaidd o gofnodion cleifion er mwyn sicrhau arfer da, ac ystyried darparu a/neu gofnodi triniaethau "digennu a llathru". | | Bydd sampl o gofnodion cleifion yn cael ei archwilio bob chwe mis a chofnodion yn cael eu cadw o'r archwiliadau.<br>Bydd yr holl driniaethau a gynigir i'r claf yn cael eu cofnodi, ynghyd ag unrhyw resymau y gallai'r claf eu rhoi dros wrthod y driniaeth a awgrymir. | James Davies i hysbysu'r deintyddion eraill a'r staff clinigol | Cwblhawyd |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras): James Davies**

**Swydd: Cyfarwyddwr**

**Dyddiad: 26 Mawrth 2018**